# CYSWLLT

Cyngor Bwrdeistref Sirol MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL County Borough Council

Papur newydd Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful *Rhifyn 62* *Mawrth 2022*




Edrych yn ôl dros y 5 mlynedd diwethaf – **tudalen 2**

Cwrdd â Max y Ci Lles – **tudalen 6**



## Croeso i rifyn diweddaraf Papur newyddion Cyswllt.

Bydd pobl ym Merthyr Tudful yn cael dweud eu dweud ar bwy fydd yn eu cynrychioli yn yr etholiadau lleol ar ddydd Iau Mai'r 5ed 2022.

Rydw i'n siŵr y bydd fy nghyd Gynghorwyr yn cytuno bod y tymor yma wedi bod yn un digynsail ac yn un fydd yn aros gyda phob un ohonom am byth.

Fel arweinydd, hoffwn ddiolch pob aelod etholedig am eu gwaith called dros y pum mlynedd diwethaf. Rwy'n siŵr pob preswylwyr yn y wardiau wedi gwerthfawrogi eich cefnogaeth ac ymroddiad yn enwedig yn ystod COVID.

Wrth ymateb i ac yn adfer o bandemig byd eang, mae'r Cyngor wedi bod yn parhau i weithio ar raglen drawsnewid. Mae cydweithio gyda Llywodraeth Cymru a Bwrdd Sicrwydd wedi ein helpu i ffocysu ar yr ardaloedd allweddol i'w gwella. Gyda'r gefnogaeth hon rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol gyda Safonau Addysg, cynyddu ein gwydnwch mewn Gwasanaethau Cymdeithasol yn ogystal â ffocysu ar Adferiad Economaidd. Ceir mwy o wybodaeth am ein cynnydd trawsnewid ar dudalen 6.

Wrth edrych yn ôl ar yr hyn sydd wedi ei gyflawni gan swyddogion, aelodau etholedig a chi, y preswylwyr, rydw i'n hynod o falch. Efallai taw ni yw'r Awdurdod Lleol lleiaf yng Nghymru, ond mae cryfder ein cymunedau ymysg y cryfaf.

Gyferbyn y golofn hon ceir rhai o brif gyflawniadau'r Cyngor dros y 5 mlynedd ddiwethaf.

Hefyd yn y rhifyn hwn, mae straeon am lwyddiant rhaglen brentisiaeth y Cyngor (tudalen 4), Tŷ Enfys, Uned Ofal Dementia Merthyr, y cyntaf yn y DU I dderbyn achrediad Mae Gofal Ystyrlon yn Bwysig (tudalen 5), a newyddion cyffrous am gynlluniau perchennog The New Crown, Jorge D'ascencao ar gyfer yr hen glwb rygbi (tudalen 7).

Cynghorydd Lisa Mytton
Arweinydd

# Arolwg Preswylwyr Blynyddol- beth ddwedoch chi wrthon ni

Cymrodd dros 500 o breswylwyr ran yn ein Harolwg Preswylwyr 2021/22.

Nodwyd pryderon am:
- Y palmentydd a trwsio ffyrdd
- Goleuo strydoedd
- Ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Treth y Cyngor

Gydag adborth cadarnhaol am:
- Ysbryd cymunedol cryf Merthyr Tudful
- Adfywiad ein tref
- Gwaith anhygoel staff y rheng flaen yn ystod y pandemig.

Dwedodd y Cynghorydd Chris Davies, yr Aelod Cabinet dros Llywodraethu ac Adnoddau, "Diolch yn fawr i bawb am gwblhau ein Harolwg Preswylwyr diweddaraf.

"Mae gwrando ar farn preswylwyr yn allweddol i Gyngor llwyddiannus a thrwy holi am sut mae'r Cyngor yn gweithredu a sut mae preswylwyr yn derbyn gwybodaeth a sut mae gwasanaethau yn cael eu cyflwyno.

"Mae'r ymatebion wedi eu dadansoddi ac mae tîm project wrthi yn delio gyda'r materion a godwyd ac yn datblygu cynllun ymateb.

"Byddwn yn adrodd ar y canlyniadau a'r cynlluniau yn rhifyn nesaf Cyswllt."

## Preswylwyr yn cael dweud eu dweud ar osod cyllideb y Cyngor

Diolch i'r holl drigolion a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad cyllideb blynyddol eleni.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad 12 wythnos rhwng Tachwedd 2021 a Chwefror 2022.

Mae'r canlyniadau nawr yn cael eu dadansoddi a byddant yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor Llawn ddydd Mercher 2 Mawrth i'w hystyried fel rhan o'r adroddiad gosod cyllideb ar gyfer 2022/23.

# Rhai o Uchafbwyntiau'r Pum Mlynedd diwethaf

### Buddsoddiad a thrawsnewidiadau cyffrous ar draws y Fwrdeistref Sirol.

Yn 2018 agorwyd canolfan siopa £40m Trago Mills yn y dref gan greu 350 o swyddi a denu llawer o ymwelwyr i'r Fwrdeistref Sirol.



Ym Medlinog dechreuodd Rock UK Summit Centre ar waith project adnewyddu gwerth £4m gan gynnwys canolfan addysg a phreswyl 100-gwely, cwrs sgiliau beiciau, campfa, café ac ardal chwarae i blant.

Gwnaed buddsoddiad o £100,000 o gyllideb graidd y Cyngor I wella'r cyfleusterau yn lleol gan gynnwys adnewyddu cae chwarae astroturf Ysgol Uwchradd Pen-Y-Dre gyda chae 3G, ac adnewyddu cyrtiau tenis Parc Tretomos.

Ym mis Tachwedd 2020 rhoddodd Cynghorwyr eu cefnogaeth unfrydol i Gynllun Cyfarthfa, cynllun i drawsnewid Castell a Pharc Cyfarthfa a'r ardal gyfagos yn atyniad twristaidd yn seiliedig ar dreftadaeth ddiwydiannol fyd-enwog y dref.

Yn 2021 cyhoeddwyd y byddai safle hen Ysbyty Santes Tudful yn Stryd Thomas Uchaf yn cael ei ddatblygu i ddarparu 70 o dai y mae mawr eu hangen. Bydd y safle yn gweld y bloc mynedfa restredig Gradd II yn cael ei ymestyn a'i droi yn saith fflat a thŷ. Bydd gweddill y safle yn cael ei ddatblygu i ddarparu fflatiau, byngalos, tai teras a thai pâr.

Mae cyfnewidfa fysiau newydd Merthyr Tudful gwerth £11 miliwn hefyd wedi ei gwblhau i'r Cyngor.



### Taclo digartrefedd.

Lansiwyd project arloesol i leihau'r nifer sy'n ddigartref ym Merthyr Tudful. Mae'r Project Tai yn Gyntaf yn cael ei redeg mewn partneriaeth gyda Byddin yr Iachawdwriaeth yn symud pobl sy'n cysgu ar y strydoedd yn symud i gartrefi heb fynd i lochesi. Maent yn derbyn cefnogaeth i fynd i'r afael â phroblemau eraill megis camddefnyddio sylweddau neu broblemau iechyd meddwl.

### Tai Cymoedd Merthyr yn tawelu meddwl preswylwyr am eu diogelwch.

Yn 2017 gweithiodd y Cyngor a Thai Cymoedd Merthyr(TCM) I dawelu meddwl preswylwyr am ddiogelwch eu cartrefi, gan gynnwys cladin a materion eraill. Sicrhawyd preswylwyr yn enwedig y rhai yn byw mewn fflatiau tal gan TCM bod popeth wedi ei wneud i'w diogelu.

### Cefnogi preswylwyr a busnesau mewn argyfyngau:

#### Stormydd Ciara a Dennis

Cafodd Stormydd Ciara a Dennis ddylanwad sylweddol o fewn ein cymunedau ar ddechrau 2020. Yn sgil effaith y stormydd sicrhaodd y Cyngor gefnogaeth ymarferol a chefnogaeth ariannol ar gyfer preswylwyr. Fel rhan o'r gwaith clirio, gwelwyd bron i 50 cynllun trwsio, gwerth bron i £9m, o ganlyniad i'r stormydd. Mae rhan olaf y gwaith - Rhan 3 - i ddechrau ym mis Ebrill 2022.



#### COVID 19

Ym mis Mawrth 2020 newidiodd bywydau pob un ohonom gyda dyfodiad Covid-19.Effeithiodd ar bawb yn wahanol a death ein cymunedau ynghyd i gefnogi'r rhai mewn angen. Addasodd y Cyngor ei dull o weithio gan barhau I ddarparu y gwasanaethau ar gyfer ein preswylwyr. Darparodd y Cyngor hefyd grantiau amrywiol i unigolion a busnesau ar draws y fwrdeistref sirol i leihau effaith yr argyfwng.



Merthyr hefyd oedd yr awdurdod lleol peilot cyntaf yng Nghymru i gyflwyno Profi Torfol. Helpodd 'model' Merthyr fel y'i gelwid y lluoedd arfog wrth ddarparu profi torfol ar draws y DU, a chanmolwyd pobl Merthyr gan brif swyddog y fyddin yng Nghymru, gan ddiolch iddynt am eu cefnogaeth.

## Adborth addysg cadarnhaol gan Estyn

Yn ystod mis Ionawr, cynhaliodd Estyn, arolygiaeth addysg a hyfforddiant Cymru, arolygiad o wasanaethau addysg yr awdurdod lleol. Roedd y broses yn cynnwys cyfweliadau â phartneriaid sy'n gweithio gyda'r awdurdod lleol yn ogystal â llywodraethwyr ysgol, penaethiaid a swyddogion o bob rhan o wasanaethau yn ogystal ag aelodau etholedig. Mae rhagor o wybodaeth am yr arolygiad ar gael yma:

Latest inspection reports I Estyn (llyw.cymru)

Roedd yr holl wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn yn gywir ar adeg ei hargraffu.

# Pobl ifanc 16 – 17-oed a gwladolion tramor yn cael eu hannog i bleidleisio yn yr etholiadau lleol

Mae CBSMT yn annog pobl ifanc 16-17 oed a gwladolion tramor i gofrestru i ethol a phleidleisio er mwyn lleisio barn am ddyfodol y Fwrdeistref Sirol, yn dilyn newid rheolau. Mewn arolwg yn 2019, dim ond 491 (38.94%) o bobl ifanc 16 - 17- oed oedd wedi cofrestru i bleidleisio ym Merthyr Tudful. Mae hwn y nifer isel iawn, a hoffai'r Cyngor ei weld yn newid. Mae CBSMT yn credu'n gryf bod pobl ifanc a gwladolion tramor yn lleisio barn ac eisiau i'r nifer sydd wedi cofrestru i bleidleisio cynyddu erbyn yr etholiadau lleol eleni. Mae'n hynod bwysig bod safbwyntiau amrywiol yn dylanwadu ar yr etholiad er mwyn siapio penderfyniadau o fewn y Fwrdeistref Sirol.

Dywedodd CBSMT: *"credwn ei bod yn bwysig iawn bod pobl ifanc 16-17-oed a gwladolion tramor yn cael llais yn y penderfyniadau rydym yn gwneud yn y Cyngor. Mae pobl ifanc yn cael eu heffeithio gan ein penderfyniadau yn y Cyngor yn yr un modd ag oedolion, felly mae cael y cyfle i bleidleisio dros rywun sydd wedi siarad yn bersonol â nhw yn bwysig iawn er mwyn cynyddu ymddiriedaeth ac i gael eu clywed fel preswylwyr. Mae gan wladolion tramor, yn yr un modd, lais yn eu cymunedau a'r un hawliau i leisio a siapio penderfyniadau ar draws y Fwrdeistref"*.

# Cefnogaeth rent Covid ar gael tan ddiwedd mis Mawrth

Mae'r Cyngor yn apelio ar denantiaid tai sydd mewn dyled o ganlyniad i coronafeirws wneud cais am gefnogaeth o gynllun grantiau Llywodraeth Cymru- nad oes rhaid ei dalu nôl.

Mae gan denantiaid preifat a thenantiaid landlord cymdeithasol tan Fawrth 31 I wneud cais ar gyfer Grant Caledi Tenantiaeth ar gyfer Tenantiaid Rent y Sector Breifat sydd wedi ei gynllunio ar gyfer pobl sydd wedi mynd i ddyled rhent oherwydd y pandemig o fwy na wyth wythnos rhwng Mawrth 1 2020 a Mehefin 30 2021.


Os ydych yn gymwys, bydd y grant yn cael ei dalu yn uniongyrchol i'r landlord neu asiant i helpu i glirio unrhyw ddyled rhent a lleihau'r posibiliad o gael eich troi allan o'r eiddo. Ni ddylai ceiswyr fod wedi derbyn budd-dal tai gyda dyled rhent.

Dwedodd yr Aelod Cabinet dros Aelod Cabinet â Phortffolio ar gyfer Adfywio, Trawsnewid a Masnacheiddio Cyng. Geraint Thomas: "Rydym yn gwybod bod llawer o bobl wedi dioddef yn ariannol yn ystod y pandemig, oherwydd ffyrlo neu o golli swydd.

"Bwriad y grant yw helpu pobl i aros y neu dai a'u rhwystro rhag collie u tenantiaeth. Byddwn yn annog pobl sydd yn y sefyllfa hon i adael i'r Cyngor eich helpu i gael cymorth."

Os ydych yn credu eich bod yn gymwys, llenwch y ffurflen gais ar-lein gan ddefnyddio'r linc: <https://www.merthyr.gov.uk/do-it-online/request-or-apply/tenancy-hardship-grant-thg-application-form/>

Os oes anawsterau gyda defnyddio'r broses ar-lein cysylltwch â 01685 725000 neu e-bostiwch HousingGateway@merthyr.gov.uk




# *Cyngor yn ymgynghori ar GDM ynghanol tref Merthyr Tudful*

Mae'r Cyngor wedi ymgynghori â phreswylwyr ynghylch cyflwyno Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus (GDMAC) er mwyn atal yfed a chymryd cyffuriau ar y stryd mewn ardal dan waharddiad ynghanol y dref.

Bydd y Gorchymyn yn caniatáu'r Heddlu neu Swyddogion Gorfodi'r Cyngor i gyflwyno hysbysiad cosb penodedig o £100 a gallai methiant i'w dalu arwain at erlyniad a dirwy yn y llys o hyd at £1,000.

Gofynnodd y Cyngor am safbwyntiau'r cyhoedd er mwyn canfod yr effaith y mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn sgil cymryd sylweddau meddwol yn ei gael ar y cyhoedd yn yr ardal dan waharddiad arfaethedig.

Os caiff ei gymeradwyo, mae'r Gorchymyn yn debygol o ddod i rym erbyn yr haf nesaf.

*"Bwriad Gorchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus yw ymdrin â niwsans neu broblem benodol mewn ardal benodol sydd yn niweidiol i ansawdd bywyd y gymuned leol," meddai'r Cynghorydd Geraint Thomas, Aelod o'r Cabinet ar gyfer Aelod Cabinet â Phortffolio ar gyfer Adfywio, Trawsnewid a Masnacheiddio.*

*"Y prif fanteision yw lleihau yfed a chymryd cyffuriau ar y stryd sydd yn cael effaith negyddol ar gymunedau ac ar yr amgylchedd gan leihau'r defnydd o alcohol a chyffuriau a diogelu unigolion sydd yn agored i niwed."*

# Y Cyngor yn gwahodd i Fforwm Landlordiaid

Mae swyddogion y Cyngor wedi estyn gwahoddiad i landlordiaid lleol i fynychu cyfarfod i wrando ar ac ymateb i unrhyw faterion.

Bydd CBSMT mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn cynnal Fforwm Landlordiaid Merthyr Tudful ar 28.

Anelir y Fforwm at landlordiaid sydd berchen neu sy'n rhentu eiddo preswyl ym Merthyr Tudful ac awdurdodau lleol cyfagos.

Mae'n rhoi cyfle i staff y Cyngor roi gwybod i landlordiaid am newidiadau polisi allweddol yn y sector rentu breifat ac i hyrwyddo arfer da.

Mae hefyd yn rhoi llais i landlordiaid godi materion sy'n eu pryderu nhw a'u busnesau.

Cynhelir y cyfarfod yng Ngwesty'r Castell, Stryd y Castell, Merthyr Tudful rhwng 10am-1pm. Bydd lluniaeth ysgafn ar gael. Gall cyfyngiadau fod ar y nifer o leoedd oherwydd Covid 19, felly archebwch eich lle.

Dylai unrhyw un sydd â diddordeb mynychu'r fforwm gysylltu gyda Swyddog Y Sector Rentu Breifat CBSMT, Craig Hughes ar 07598 404368 neu e-bostio craig.hughes@merthyr.gov.uk er mwyn archebu lle.

# Ailwampio safle Teithwyr/Sipsiwn Glyn mil

Mae Parc Carafanau Glyn mil ym Mhentrebach, sy'n safle preswyl Teithwyr/Sipsiwn ers dros 40 mlynedd yn cael ei ailwampio yn sylweddol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu Grant Cyfalaf Safle o dros £500,000 i ailwampio pob un o'r 24 bloc ar y safle 8.3acer sydd wedi bod yn safle i garafanau ers 1977.

Yn 2020, arwyddodd CBSMT les 80 mlynedd a chymryd cyfrifoldeb llawn am reoli'r safle, am ddatblygiadau ac ailwampio sydd yn hanfodol ar gyfer gweithredu'r safle Teithwyr/Sipsiwn.

*"Y bwriad yw sicrhau cartrefi o safon dda yn y fwrdeistref sirol, gan gefnogi lles y preswylwyr presennol,"meddai'r Cyng. Geraint Thomas yr Aelod Cabinet dros Aelod Cabinet â Phortffolio ar gyfer Adfywio, Trawsnewid a Masnacheiddio.*

*"Bydd y cyllid yn creu cartrefi modern ynni effeithiol ar gyfer 24 llain, ailddatblygu canolfan gymunedol ac ailgynllunio ardal werdd gan sicrhau lleoliad diogel, a modern i fyw."*

Disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau erbyn diwedd Medi 2022.

Dylai unrhyw ymholiadau am y safle e-bostio: housing@merthyr.gov.uk

# Amrywiaeth yn factor pwysig mewn etholiadau lleol




Rydym yn annog pobl o grwpiau na sy'n cael eu cynrychioli i sefyll fel ymgeiswyr yn yr etholiadau lleol eleni ac yn y dyfodol. Er peth cynnydd yn ddiweddar, dim ond chwech o'r 22 o arweinwyr cyngor Cymru sydd yn fenywod a dim ond 28% sy'n gynghorwyr. Dim ond 11% sy'n anabl a dim ond 1.8% sydd o gefndir du neu Ethnig Lleiafrifol. Yn ôl Astudiaeth yn 2019 gan Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol yng Nghymru, yn ystod y pum mlynedd hyd at 2019 cynyddodd y nifer o'r boblogaeth sy'n lesbaidd, hoyw, deurywiol yn cynyddu o 1.6% yn 2014 I 2.9% yn 2019.

Mae'r cyngor yn credu'n gryf mewn amrywiaeth a chydraddoldeb gan ddweud,: *"Mae'r datblygiad yn ddiweddar wedi gwella, ond mae angen newidiadau pellach i annog mwy o ymgeiswyr amrywiol i sefyll etholiad a chynrychioli eu wardiau. Yn ogystal â chynrychioli Preswylwyr, gall Cynghorwyr fod yn esiamplau r l ar gyfer grwpiau isel eu cynrychiolaeth ac o bosib ysbrydoli cenhedlaeth newydd o arweinwyr dinesig."*

Mae'r project amrywiaeth democratig yn ceisio adnabod unigolion sydd efallai ddim yn ystyried sefyll fel Cynghorydd a newid ei meddwl gan gofio bod llawer o bethau yn eu lle er mwyn hwyluso Cynghorydd wrth gyflawni ei dyletswyddau. Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo Datganiad Amrywiaeth ac wedi ymrwymo i gyflawni gweithgareddau i wella amrywiaeth o fewn democratiaeth llywodraeth leol, amrywio amseroedd cyfarfodydd a chefnogi cynghorwyr sydd â galwadau eraill. Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful weledigaeth gref yn ei Chynllun Amrywiaeth Strategol 2022-2024. Ein gweledigaeth amrywiaeth ar gyfer Merthyr Tudful yw: *"Lle ble mae amrywiaeth yn cael ei barchu a'i werthfawrogi, ble gall pawb gymryd rhan a ffynnu a chael cyfleoedd i gyflawni eu potensial heb wahaniaethu na rhagfarn".*

# Disgyblion yn mynd yn ddigidol gyda ap iechyd a lles newydd o'r enw 'MiHealth'




Yn ystod y flwyddyn ysgol bu disgyblion, staff a Value-Added Education yn creu ap lles ac iechyd sy'n cynnig cynghorion, heriau ac offer i wella lles. Mae gweithgareddau fel gweithgareddau meddylgarwch ar gyfer tawelwch ac i ymlacio, ond hefyd dechnoleg drawiadol megis realiti estynedig gan ddod â threfn, ymarfer corff rheolaidd a gwaith celf i'w dosbarth a gartref.

Ysbrydoliaeth yr ap oedd y plant yn ystyried sut bod Ysgol sy'n Parchu Hawliau yn nodi pwysigrwydd iechyd a lles.

Mae gan strategaeth addysg CDCS CBSMT y weledigaeth o sicrhau bod lles a hyrwyddo lles meddyliol a chorfforol yn cael ei gyflawni gan bob plentyn, pobl ifanc ac aelodau staff ysgol.

Mynychodd y Cynghorydd Lisa Mytton, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet dros Addysg ddigwyddiad ar-lein ble cyflwynodd y disgyblion yr ap. Roedd hi'n hynod falch I weld syniadau fel hyn mewn ysgolion.

Dwedodd,: *"Mae disgyblion a staff Pantysgallog wedi gwneud argraff fawr arna i wrth greu'r ap MIHealth. Mae wedi ei gynllunio yn berffaith fel bod disgyblion, rhieni ac eraill yn gallu ei ddefnyddio gyda chynnwys sy'n gwella iechyd a lles mewn ffordd ddeniadol a hygyrch. Fel yr Aelod Cabinet dros addysg, byddwn wrth fy modd gweld mwy o hyn mewn ysgolion. Mae'r pandemig wedi bod yn adeg heriol iawn i lawr o ddisgyblion ac mae cynnwys fel hwn yn ffordd arall o'u cefnogi, yn yr ysgol a gartref."*

## Soar yn derbyn cydnabyddiaeth am eu rheolaeth ac am eu cyfraniad i'r Fwrdeistref



Derbyniodd Canolfan a Theatr Soar Wobr Safon Ansawdd Elusen Ddibynadwy am eu gwaith clodwiw yn y trydydd sector. Rydym yn eu llongyfarch am eu cyfraniad ac ymroddiad wrth gydweithio o fewn y gymuned gan gynnig croeso cynnes i bawb. Mae Canolfan a Theatr Soar yn ganolfan Iaith Gymraeg, celfyddydau, a threftadaeth sy'n cynnig gofod ar gyfer cyfarfodydd, gweithgareddau, cyrsiau a pherfformiadau. Dwedodd y Cyng. Geraint Thomas, Aelod Cabinet â Phortffolio ar gyfer Adfywio, Trawsnewid a Masnacheiddio a Phencampwr yr Iaith Gymraeg,:

*"Mae'r gydnabyddiaeth hon yn dystiolaeth bellach o'r gwaith anhygoel y mae'n partneriaid yn y trydydd sector yn ei wneud yn y Fwrdeistref. Mae gwaith Lisbeth Mclean, Prif Swyddog y Fenter Iaith i'r gymuned yn anhygoel. Mae Mentr Iaith Merthyr Tudful, Cymraeg i Oedolion - Dysgu Morgannwg a Chylch Meithrin Soar wedi darparu croeso cynnes i gymaint o bobl yn ein cymuned. Dymunaf bob llwyddiant i'r sefydliad hwn yn y dyfodol."*

## Blwyddyn lwyddiannus arall i Brentisiaid yn y Cyngor

Fel rhan o un o'r themâu 'Adeiladu'r Dyfodol', yng Nghyngor Merthyr Tudful rydym wedi cefnogi rhaglenni prentisiaeth ac wedi gweld 7 prentis yn ymuno â ni. Bwriad ein rhaglen brentisiaeth yw darparu hyfforddiant mewn swydd wrth gefnogi'r prentisiaid i ennill cymwysterau cenedlaethol cydnabyddedig.

Dywedodd Prif Weithredwr y Cyngor Ellis Cooper: *"Yn rhaglen 2021,fe recriwtiwyd 7 prentis newydd mewn amrywiol adrannau ar draws y Cyngor megis Data, Rheolaeth Adeiladau, Datblygu a Dysgu, Carbon ac Ynni a'r Parciau. Rwy'n credu ei bod yn bwysig cofio ein dyletswydd i feithrin a datblygu tyfiant y Cyngor trwy ddatblygu gweithwyr newydd trwy raglen ffantastig! Yn ogystal â hyn mae ein Rhaglen Ymgeisio yn parhau i gefnogi prentisiaid o fewn y sector GTPAM( Gwyddoniaeth, Technoleg ,Peirianneg ,Awyrenneg a Mathemateg) yn ogystal ag adeiladu perthynas gyda chyflogwyr a phartneriaid allanol. Rydym hefyd wedi cael nifer o staff yn ymuno â rhaglen brentisiaeth fel datblygiad proffesiynol. Rydw I wrth fy modd i weld y gwaith sy'n digwydd yn ein sefydliad. Mae hi'n adeg gyffrous iawn I Brentisiaethau yng Nghyngor Merthyr Tudful."*

Mae'r cymhwyster y mae pob Prentis yn ei astudio yn berthnasol i'w dewis yrfa, sydd yn effeithiol gan ei fod yn cynnig gwybodaeth yn ogystal â sgiliau ymarferol o'r gweithle. Mae'r dull hybrid yma yn eu galluogi i ymestyn eu sgiliau a gwella eu gallu mewn gwasanaethau ar draws y Cyngor.


Dyma beth mae rhai o'r prentisiaid wedi'i ddweud am yr amser yn eu rolau hyd yn hyn:

Amy Monger, Prentis Aspire

*"Doeddwn i ddim yn si r ai prifysgol oedd y llwybr iawn i mi, felly dechreuais ymchwilio a thrafod prentisiaethau a dyna pryd y daeth Aspire i'r Coleg. Rydw i nawr yn astudio Lefel 3 NVQ mewn Cymorth Peirianneg ac rydw i'n caru fy swydd a'r bobl rydw i'n gweithio gyda nhw."*

Brandon Burnell, Prentis Parciau, Lefel 2 mewn Garddwriaeth

*"Roeddwn yn arfer gwirfoddoli cyn i mi weld yr hysbyseb am brentisiaeth ac yn adnabod yr ardal ac yn gyfforddus. Rydw i wrth fy modd gyda'r ochr ymarferol yn plannu coed, creu gwely blodau a defnyddio'r offer peirianyddol. Rydw I'n dysgu cymaint!"*



# Max y Cavapoo yn cefnogi lles disgyblion yn Ysgol Gynradd Pantysgallog



Fel rhan o strategaeth lles Ysgol Gynradd Pantysgallog, cyflwynodd yr ysgol gi i'r ysgol. Ganwyd Max y Ci Lles ar Fedi'r 11eg 2020 ac ymuno a'r ysgol yn Ionawr 2021.

Cyn derbyn Max, gwnaeth yr ysgol ymchwil. Siarad gydag ysgolion eraill yng Nghymru a Lloegr am effaith a dylanwad ci lles. Cefnogodd yr Awdurdod Lleol y syniad yn ogystal â derbyn cefnogaeth rhieni a llywodraethwyr a nododd llawer bod y syniad yn un gwych.

Dewisodd yr ysgol Max gan ei fod yn Cavapoo, sydd â natur addfwyn. Cyn dechrau yn yr ysgol derbyniodd Max hyfforddiant ufudd-dod ac ers ymuno, mae wedi cael hyfforddiant gyda staff a 'The Dog Mentor', sef sefydliad sy'n cynnal cyrsiau achredig i gŵn a staff ar sut y dylai cŵn ymddwyn yn yr ysgol ac o'i chwmpas. Bellach mae Max wedi derbyn ei wobr aur ar ôl llwyddo o efydd ac arian.

Er mwyn gofalu am les Max, mae'n gweithio at amserlen o 30 munud yn gweithio ac o leiaf un awr ddim. Mae ganddo ardal dawel ble mae'n cysgu ac mae'n gallu defnyddio tir yr ysgol ar gyfer ymarfer. Mae ei waith yn cynnwys croesawu'r plant i'r ysgol yn y bore, bod mewn dosbarthiadau ar gyfer sesiynau darllen, cefnogi disgyblion sy'n bryderus ac ymuno mewn sesiynau ELSA. Mae sesiynau ELSA yn cael eu harwain gan staff sydd wedi eu hyfforddi i gefnogi disgyblion sydd angen mwy o gefnogaeth emosiynol, angen datblygu strategaethau ymdopi neu gael cyfle i siarad gydag oedolyn maent yn ymddiried ynddo.

Dwedodd Darren Thomas, y pennaeth: *"Mae pawb sy'n ymweld â'r ysgol wrth eu bodd yn cwrdd â Max, mae wedi cael dylanwad positif ar les y disgyblion a'r staff. Pob bore mae'n eistedd gyda mi yn y brif fynedfa, yn croesawu disgyblion a staff, mae'n ffordd hyfryd i ddechrau'r diwrnod."*

# Ty Enfys yn gyntaf yn y DU i dderbyn Achrediad Eithriadol 'Mae Gofal Ystyrlon yn Bwysig'






Yr wythnos diwethaf derbyniodd 'Uned Gofal Dydd Dementia Tŷ Enfys Kier Hardie' achrediad Achrediad Eithriadol 1 'Mae Gofal Ystyrlon yn Bwysig', y cyntaf i'w dderbyn yng Nghymru. Dangosodd yr archwiliad gan Mae Gofal Ystyrlon yn Bwysig (MGYB) bod safon y bywyd i'r cleifion dydd yn Nhŷ'r Enfys i fod o'r safon uchaf, gyda gofal eithriadol yn cael ei roi gan staff cariadus a oedd wir yn gofalu am eu cleifion gan ddod â llawenydd, urddas ac ystyr i'w gofal. Mae project cyfalaf Tŷ Enfys o £1.6M wedi cael ei ddefnyddio i drawsnewid amgylchedd gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol dementia cyfunol.

Cenhadaeth yr uned ddydd yw cynnig gofal o'r safon uchaf i unigolion o 55 oed gyda datganiad Dementia cymedrol neu ddifrifol. Mae amrywiaeth o weithgareddau ar gael yn y ganolfan ddydd i annog unigolion i gymryd rhan yn ddibynnol ar lefel y cyflwr gan sicrhau eu bod yn cael y gofal gorau posib. Mae'r ganolfan yn cefnogi a rheoli iechyd y cleifion gan weithio ar gadw'r caf, annibyniaeth a chefnogi gyda bywyd cymdeithasol. Mae'r staff profiadol yn sicrhau bod hyn yn digwydd yn rheolaidd, ond hefyd yn cefnogi gydag elfennau mwy cymhleth fel rhoi meddyginiaeth, gofal personol a chymorth bwyta ac yfed.

Dywedodd Pennaeth Gwasanaethau Oedolion CBSMT, Angela Edevane,*"Mae'r llwyddiant hwn yn ganlyniad i weithio mewn partneriaeth ac ymdrech ddiflino'r tîm yn Nh 'r Enfys i droi'r achrediad yn realiti."*

Dwedodd Julie Denley Cyfarwyddwr Gofal Cychwynnol ac Iechyd Meddwl Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg: *"Mae T 'r Enfys yn wasanaeth pwysig sy'n cyfrannu at gefnogi pobl gyda dementia i fyw gartref cyhyd â phosib trwy eu cefnogi nhw a'u gofalwyr.*

Wrth siarad ar ran tîm yr Uned Gomisiynu Ranbarthol, dywedodd Nia McIntosh, Swyddog Comisiynu Rhanbarthol:

*"Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg yn falch iawn o fuddsoddi Cyllid Gofal Integredig i'r gwasanaeth dementia unigryw hwn, sydd bellach wedi'i gydnabod gyda'r achrediad hwn. Rydym yn deall pa mor bwysig yw hi i deuluoedd a phobl sy'n profi dementia gael lle diogel a chyfforddus i'w wario.*

Dywedodd y Cynghorydd Tony Rogers, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol: *"Mae'r uned gofal Dementia newydd yn fendigedig, mae'r syniadau, y cenhedlu a'r canlyniad yn darparu cyfleuster o'r radd flaenaf i ddefnyddwyr dementia a'u teuluoedd. Mae'r cynllun yn groesawgar iawn, gydag ychwanegiadau lleol cyfarwydd wedi'u hychwanegu. Mae'n lleoliad hardd i helpu rhai o'n preswylwyr mwyaf agored i niwed ac ni allaf ddiolch digon i'r tîm am eu gwaith caled yn dod â'r cyfan at ei gilydd, yn enwedig yn ystod yr amseroedd caled rydym i gyd wedi'u hwynebu. Yn ogystal â'r cyfleuster gwych hwn, mae clywed y newyddion eu bod wedi cyflawni Achrediad Eithriadol yn dangos gwaith gwych y staff a'r tîm ac rydw i mor falch ohonyn nhw i gyd."'*




# Gwaith ar y Splash Pad wedi ei gwblhau

Mae'r gwaith ar ail-adeiladu'r Splash Pad ym Mharc Cyfarthfa wedi ei gwblhau.

Bydd y Splash Pad yn ailagor yn y gwanwyn ar ôl gosod offer chwarae newydd a jetiau dwr, gyda chytundeb a chydweithrediad disgyblion Ysgol Gynradd Parc Cyfarthfa.

Mae'r contractwyr hefyd wedi gosod arwyneb rwber newydd, wedi gwella'r draeniad a diweddaru'r offer er mwyn gwneud i'r pympiau dwr fod yn fwy effeithiol. Mae hefyd ffens o amgylch mynedfa staff yr ystafell reoli i wella iechyd a diogelwch.

Dwedodd y Cynghorydd Geraint Thomas yr Aelod Cabinet dros Adfywio, Trawsnewid a Masnacheiddio: *"Rydym yn hapus i weld y gwaith ar wella'r Splash Pad yn dod i ben, a hoffwn ddiolch i'r cyhoedd am eu hamynedd gan fod y project wedi wynebu problemau a oedd tu hwnt i'n rheolaeth.*

*"Roedd safbwyntiau disgyblion Parc Cyfarthfa yn werthfawr wrth helpu'r contractwyr ddewis offer chwarae y bydd plant eraill y fwrdeistref sirol yn hapus i'w mwynhau."*

Dwedodd Prif Weithredwr Lles@ Merthyr Jane Sellwood: "Bydd y cyfleuster ffantastig hwn yn ychwanegu at y Ganolfan boblogaidd, sydd hefyd wedi cael ei adnewyddu i safon uchel.

"Allwn ni ddim aros at ddechrau'r tymor newydd a gweld ein plant yn mwynhau yn yr haul unwaith eto."

# Diweddariad Trawsffurfio CBSMT

Trwy gydol 2021, mae'r Cyngor wedi parhau i drawsffurfio a gwneud gwelliannau yn ogystal ag ymateb i'r pandemig.

## Crynodeb cyflym

Dros flwyddyn yn ôl, datblygodd y Cyngor 'Gynllun Adfer, Trawsffurfio a Gwelliant' er mwyn ein cynorthwyo i adfer wedi'r pandemig, yn ogystal â thrawsffurfio a gwella.

Mae'r Bwrdd Gwelliant a sefydlwyd, sydd yn cynnwys Ymgynghorwyr Llywodraeth Cymru, Aelodau Etholedig a Swyddogion wedi bod yn canolbwyntio ar dair blaenoriaeth fel rhan o'r trawsffurfiad, sef:

1. Gwella'n Safonau Addysg
2. Gwella'n gwydnwch Gofal Cymdeithasol
3. Adferiad Economaidd

Cytunwyd hefyd ar feysydd er mwyn cynorthwyo â darpariaeth y blaenoriaethau. Maent yn cynnwys:

- Ailgylchu a Rheoli Carbon
- Sefydliad Iach (cefnogi staff a datblygiad)
- Trawsffurfiad Digidol (sut y gallwn ni ddefnyddio technoleg i gefnogi darpariaeth gwasanaethau)
- Masnacheiddio (a allwn ni ddatblygu cyfleoedd masnachol)
- Gwella Llywodraethu (sicrhau fod ein prosesau'n gydnerth er mwyn cefnogi trawsffurfiad.)

## Beth ydym ni wedi ei wneud?

**1. Gwella'n Safonau Addysgol**

Yn gynharach eleni, lansiwyd ein Strategaeth 'Codi Dyheadau, Codi Safonau,' a gyfeirir ati'n aml fel strategaeth RARS. Ei nod yw codi dyheadau'n dysgwyr. Rydym wedi dechrau darparu hyn ac rydym yn gweithio ag ysgolion ac eraill i gefnogi'r dysgu.

Rydym wedi cynorthwyo dros 500 o ddysgwyr nad oedd â mynediad digidol cyn hyn drwy ddarparu dyfeisiadau Chromebook a chysylltiadau'r rhyngrwyd. Bu hyn yn gymorth i barhau â'r dysgu yn ystod y pandemig.

**2. Cynyddu'n gwydnwch mewn Gofal Cymdeithasol**

Roedd angen i ni addasu i ffyrdd gwahanol o weithio er mwyn cyflawni anghenion defnyddwyr ein gwasanaeth. Er enghraifft, cymeradwywyd mentrau Gofal Maeth yn Chwefror 2021 ar gyfer Gwasanaethau Plant. Cymeradwywyd "Paratoi ar gyfer bywyd fel oedolyn - Polisi Pontio' a'r 'Strategaeth Eiriolaeth' ar gyfer Gwasanaethau Oedolion. Rydym wedi gwella'n cydweithio a defnyddio gwahanol ffyrdd o weithio fel defnyddio mwy o dechnoleg.e.

**3. Adferiad Economaidd**

Rydym wedi cwblhau ymgynghoriad ac wedi datblygu gweledigaeth 15 mlynedd o hyd ar gyfer economi Merthyr Tudful. Bydd hyn yn gymorth i ni ddeall yn well y sefyllfa economaidd a sut i'w chefnogi. Mae hyn ar y cyd â'r cynllun adfer economaidd a'r bwrdd adfer economaidd.

Mae timau, ledled y Cyngor wedi cynorthwyo i weinyddu dros £20 miliwn o grantiau gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo busnesau.

Sefydlwyd Partneriaeth Busnes, Addysg a Hyfforddiant er mwyn cynorthwyo dysgwyr, datblygu sgiliau a mynd i'r afael â diweithdra.

## Cynorthwyo'r Cynllun RTI

Rydym yn parhau i weithio er mwyn darparu'n **Cynllun Datgarboneiddio**. Mae hyn ar y cyd â'n **Rhaglen Gweithio Ystwyth**. Efallai i chi sylwi ar y gwaith ar adeilad y Ganolfan Ddinesig a fydd yn gymorth i ni leihau ein hôl troed carbon.

Rydym yn parhau i weithio'n galed er mwyn cyflawni'n **targedau ailgylchu a gwastraff**. Cyflawnwyd y rhain llynedd ac mae'n rhaid i ni gydweithio â'n preswylwyr a busnesau er mwyn parhau i gyflawni'n targedau yn y dyfodol.

Fel rhan o'r **Cynllun Sefydliad Iach**, rydym wedi uwch raddio'n systemau staffio mewnol er mwyn ein cynorthwyo i gofnodi datblygiad staff. Bydd hyn yn gymorth i ni ganolbwyntio ar ein hamcanion a darparu cefnogaeth er mwyn eu cyflawni.

Mae'n **Cynllun Trawsffurfiad Digidol** wedi cynorthwyo dysgwyr, staff a democratiaeth i weithio mewn ffordd wahanol i'r arfer, cyn y pandemig. Mae hyn wedi'n caniatáu i barhau i gefnogi'n preswylwyr. Er enghraifft, rydym yn awr yn defnyddio MS Teams yn y gweithle ac i gynnal cyfarfodydd y Cyngor, Cabinet a'r Pwyllgor (fel rhan o'r **Cynllun Democratiaeth Ddigidol**.)

Mae **Tîm Masnachol** newydd wedi cael ei sefydlu er mwyn archwilio sut y gallwn fabwysiadu egwyddorion masnacheiddio a gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau er mwyn gwneud hynny.

Mae'n **Cynllun Gwelliant Llywodraethu** wedi ailffocysu'n prif gynlluniau yn ogystal â'r modd y maent yn cael eu monitro. Galwn yn awr, gyrchu data mewn modd haws er mwyn hysbysu'n adroddiadau a gwneud gwell penderfyniadau.

## Beth nesaf?

Mae 2022 am fod yn flwyddyn brysur, yn adeiladu ar waith gwych 2021.

Bydd rhaid i ni, yn amlwg, barhau i ymateb ac adfer wedi'r pandemig.

Bydd ymdrechion pellach yn cael eu gweithredu er mwyn cefnogi dysgwyr i gyflawni'r deilliannau gorau posib. Byddwn, fel cyngor yn cydweithio ag ysgolion a phartneriaid er mwyn gwneud hyn.

Byddwn yn parhau i fonitro'n perfformiad a sut y gallwn barhau i wella'n gwydnwch mewn gofal cymdeithasol a gwasanaethau eraill.

Drwy adeiladu ar ddeilliannau'n gweledigaeth economaidd 15 mlynedd, bydd fodd i ni dargedu'n ymdrechion a'n cefnogaeth yn well. Bydd y Tîm Masnachol yn gwella'r modd y byddwn yn cyflawni'r weledigaeth hon. Edrychwn ymlaen at ddatblygu a darparu cynlluniau yn 2022 er mwyn cyflawni hyn.

Byddwn yn adeiladu ar ein democratiaeth ddigidol. Bydd fodd i ni gynnal cyfarfodydd hybrid yn 2022 a fydd yn caniatáu Aelodau Etholedig i'w mynychu yn y Ganolfan Ddinesig (pan fydd yn ddiogel i wneud hynny) neu trwy ddyfais ddigidol.

Byddwn yn parhau i wneud gwaith ar y Ganolfan Ddinesig er mwyn lleihau ôl troed carbon a darparu gwell amgylchedd gwaith. Bydd cynlluniau newydd yn cael eu datblygu er mwyn ein cynorthwyo i leihau allyriadau carbon, ymhellach.

Pan fydd y Cyngor yn gwneud penderfyniad ynghylch gwella ei wasanaethau, rydym am sicrhau fod y penderfyniad hwnnw wedi ei hysbysu gan safbwynt y cyhoedd.

Byddwn yn parhau i adolygu ein platfformau cyfathrebu ac ymgysylltu er mwyn i chi fod yn rhan o'n cynorthwyo ni i ddarparu'n cynllun adfer a gwelliant.

Ni fydd y trawsffurfiad hwn yn digwydd dros nos. Mae'n rhaid i ni barhau ar y daith, gyda'n gilydd er mwyn gweld y deilliannau.

Gadewch i ni sicrhau fod Merthyr Tudful yn le yr ydym yn falch ohono!





# Merthyr Tudful i fod yn brif atyniad adloniant y Cymoedd



Gall Merthyr Tudful fod yn fan gre i gerddoriaeth byw, comedi, y celfyddydau a bwyd - gyda chynlluniau i drawsnewid hen adeilad y Clwb Rygbi yn lleoliad adloniant bywiog.

Mae'r entrepreneur lleol, Jorge D'ascencao, wedi cyhoeddi cynlluniau cyffrous ar gyfer y lleoliad — a fydd yn agor fel 'Clwb Crown' yn Awst 2022.

Mae'r project trawsnewidiol hwn yn bosib trwy fuddsoddiad gan Gynllun Creu Lleoliadau Trawsnewid Trefi, mewn cydweithrediad â CBSMT. Bydd y fan gre yn croesawu artistiaid cyfrinachol byd-enwog cyn bo hir.

Bydd y Clwb yn dal 700 o bobl, y lleoliad sy'n dal y mwyaf o bobl yn ardal Blaenau'r Cymoedd ac yn cynnwys bar coffi, gwin a thapas ar un ochr a lleoliad perfformio modern ar yr ochr arall - ar gyfer perfformiadau theatrig ,dawns, comedi a cherddoriaeth byw.

Bydd y lleoliad hefyd yn cynnig gofod ar gyfer cydweithio cymunedol yng nghanol y dref, gyda lle ar gyfer corau a chwmnïau drama i ymarfer, ystafelloedd arddangosfa ar gyfer artistiaid a man cyfarfod ar gyfer grwpiau lleol eraill.

Mae' Clwb Crown yn rhan fechan ond allweddol o gynllun eang y Cyngor - gyda'r bwriad o drawsnewid Merthyr Tudful yn brif atyniad twristiaid y Cymoedd erbyn 2034.

Yn wreiddiol o Bortiwgal, mae Jorge D'ascencao, yn enwog ym Merthyr Tudful am drawsnewid y New Crown yn 2011 - hen dafarn sydd bellach yn fan gre ar gyfer bwyd a cherddoriaeth yng nghanol y dref.

Bydd yr adeilad 1,000 metr sgwâr yn cynnig bwyd a diod trwy'r dydd - o goffi yn y bore, i ginio a swper Portiwgaleg gyda'r nos, diolch i Fatima, gwraig Jorge.

Dwedodd Jorge: *"Ein bwriad yw creu lleoliad modern ar gyfer y celfyddydau a cherddoriaeth ar gyfer pobl Merthyr Tudful- wrth alw mewn am goffi cyn gwaith, ymweld ag arddangosfa gelf gyda ffrind neu ymuno â ni am dapas a cherddoriaeth fyw ar nos Wener. Rydym am gael pobl at eu gilydd a bod yn ganolbwynt cymdeithasol ar gyfer Merthyr Tudful."*

Gyda rhestr adloniant o fandiau a pherfformwyr yn cael ei gyhoeddi yn y misoedd nesaf, y gobaith yw y bydd Clwb Crown yn cael dylanwad positif ar statws y dref fel lleoliad cerddoriaeth o bwys.

Dwedodd yr Aelod Cabinet dros Adnewyddu, Trawsnewid a Masnacheiddio, y Cyng. Geraint Thomas,: *"Gan ddechrau fel adeilad Cymdeithas y RAF yn 1978 ac yna yn gartref i'r Clwb Rygbi, mae'r lleoliad wedi bod yn un prysur ers blynyddoedd. Felly ar ôl bod yn wag am flynyddoedd, rydym wrth ein boddau gweld yr adeilad yn cael ei drawsnewid.*

## Gwaith wedi ddechrau ar drawsnewidiad arloesol CDG



Mae'r gwaith ar drawsnewid y Ganolfan Ddysgu Gymunedol yn y Gurnos i ganolfan hyfforddiant a llety arloesol ar gyfer trigolion ifanc y fwrdeistref sirol wedi dechrau.

Bydd yr adeilad, sydd wedi cael ei ddefnyddio fel canolfan addysgol i helpu pobl ifanc ac oedolion di-waith i chwilio am waith ers 25 mlynedd, yn parhau i gynnig hyfforddiant yn ogystal â phump fflat hunangynhaliol mewn tri bloc.

Y bwriad yw ymateb i'r galw am gartrefi fforddiadwy yng Nghymru, wrth gefnogi ein pobl ifanc sydd angen llety er mwyn byw yn annibynnol wrth chwilio am hyfforddiant a gwaith.

Mae'r Cyngor wedi derbyn cyllid cyfalaf o £1,126,174 ar gyfer y project gan Gronfa Raglen Gyllid Dewisol Gofal Integredig Cwm Taf Morgannwg, sydd wedi nodi gweithio gyda phobl ifanc a phlant mewn gofal fel blaenoriaeth. Fe fydd yr Awdurdod Lleol hefyd yn clustnodi £221,000 o arian cyfatebol.

"Mae'r Ganolfan Ddysgu Gymunedol yn dechrau dangos ei oed a bydd hwn yn drawsnewidiad arloesol a deniadol," meddai'r Aelod Cabinet dros Adfywio, Trawsnewid a Masnacheiddio. Geraint Thomas.

Bwriedir cwblhau a lansio'r cyfleusterau newydd diwedd Awst 2022.

Llywodraeth Cymru Welsh Government

Cwm Taf Morgannwg Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Regional Partnership Board

## Deli eiconig ym Merthyr Tudful yn dychwelyd i'r Stryd Fawr wedi 40 mlynedd



Agorwyd Johnsons' Delicatessen ym 1982 gan Jim a Joan Johnson fel hafan i brynu cigoedd Eidalaidd, caws a danteithion ym Merthyr Tudful. Bu ar agor am dros ddegawd. Yn awr, bron i 40 mlynedd yn ddiweddarach, mae'r siop leol wedi ailagor ei drysau ynghanol y dref, diolch i Jessica Howells, wyres y perchnogion gwreiddiol a 'dyfodd i fyny' yn y siop wreiddiol. Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful sydd yn cynorthwyo busnesau newydd i agor yn adeiladau gwag canol y dref. Derbyniwyd arian ychwanegol yn ogystal gan Raglen Targedu Buddsoddiad Mewn Adfywio, Llywodraeth Cymru. Mae'r deli'n cynnig amrywiaeth eang o fwydydd parod i'w bwyta, o gigoedd a chawsiau Eidalaidd i goffi, teisennau, prydau poeth a bara ffres sydd wedi eu dylanwadu gan y siop wreiddiol. Er mwyn cysylltu'r hen â'r newydd, bydd y deli hefyd yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau unigryw ar gyfer y sawl sydd yn mwynhau eu bwyd a fydd yn cynnwys pob dim o nosweithiau blasu i ddosbarthiadau meistr. Bydd y sesiwn gyntaf yn blasu coffi o dan arweiniad Big Dog Coffee, Glyn Ebwy ar Ddydd Mercher 29 Rhagfyr.

Cafodd y siop wreiddiol ei hysbrydoli gan siopau gogledd yr Eidal, y daeth Jim Johnson ar eu traws wrth seiclo ar draws Ewrop ym 1954. Wedi iddo gael ei ymddiswyddo, penderfynodd Mr. Johnson ddechrau busnes newydd gan agor y siop wreiddiol, gyda'i wraig, Joan yn brif gogydd ym 1982. Tyfodd y deli Eidalaidd mewn poblogrwydd, gan ffynnu mae'n siŵr yn sgil yr Eidalwyr a oedd yn byw ym Merthyr Tudful a'r cymoedd. Y gobaith yw parhau i weini cwsmeriaid bodlon ac i'r siop newydd fwynhau'r un cyffro.

Dywedodd y perchennog, Jessica Howells: *"Mae'r siop wreiddiol yn rhan mor bwysig o hanes fy nheulu ac rwy'n hoffi meddwl fod y siop yn bwysig hefyd yn hanes Merthyr. Mae gen i nifer o atgofion cynnar o siop fy Mamgu a fy Nhad-cu ac rwy'n gobeithio y bydd fodd i fy mab sydd yn 3 oed gael profiad tebyg.*

## Y Bartneriaeth ddiogelwch yn ymchwilio i YGG oddi ar y ffordd

Mae Partneriaeth Ddiogelwch Cymunedol Merthyr Tudful yn ymwybodol o faterion yn ymwneud â cherbydau oddi ar y ffordd sy'n cael eu hadrodd gan breswylwyr ar dir ar draws y fwrdeistref sirol.

Mae'r Bartneriaeth, sy'n cynnwys swyddogion diogelu'r cyhoedd y Cyngor a Heddlu De Cymru yn monitro safleoedd am feiciau a cheir oddi ar y ffordd ac yn gweithredu yn erbyn unrhyw un sy'n cael ei ddal.

Gallwch adrodd am unrhyw achosion yn gyfrinachol trwy e-bostio community.safety@merthyr.gov.uk




## Y gyfnewidfa Fysiau yn ennill trydedd wobr genedlaethol

Mae cyfnewidfa fysiau newydd Merthyr Tudful wedi ennill ei thrydedd wobr genedlaethol mewn tri mis. Ar ôl derbyn dwy wobr yn yr Hydref, dewiswyd y gyfnewidfa allan o wyth ar restr fer fel enillydd IBCTC (Institiwt Brenhinol Cynllunio Trefol Cymru),am Gynllunio Rhagorol.

Disgrifiodd y beirniaid y gyfnewidfa fel 'project esiampl o ddull cynhwysol o gynllunio, adeiladu a gweithredu a sut mae gwneud newid sylweddol i wneud system drafnidiaeth weithio.'

Wedi ei ariannu gan Lywodraeth Cymru, mae'r hyb cyfan gwbl drydanol cyntaf yng Nghymru yn galluogi gwefru ar y safle, heb ddim cyflenwad nwy na thanwydd ffosil a gyda thanc i gasglu dŵr y glaw ar gyfer y toiledau. Yn ddiweddar, mae wedi ennill y categori 'Cynaliadwyedd' yng Ngwobrau Rhagoriaeth mewn Adeiladu yng Nghymru 2021, gyda'r Cyngor hefyd yn ennill clod Client y Flwyddyn yng Ngwobrau Institiwt Siartredig yr Adeiladwyr 2021 yn Llundain. Roedd y gyfnewidfa yn un o wyth project i'w rhoi ar y rhestr fer gan IBCT Cymru fel 'esiamplau eithriadol o sut mae cynllunwyr a chynlluniau yn cael effaith positif ar safon bywyd a chreu lleoliadau eithriadol a diogelu'r amgylchedd'.

Cyflwynwyd y wobr i Gyfarwyddwr Cynllunio a Gwasanaethau Cymdogaeth y Cyngor Judith Jones a chynrychiolwyr o brif gontractwyr y project Morgan Sindall a Capita. Bydd y gyfnewidfa yn cael ei enwebu yn awtomatig ar gyfer gwobrau'r DU o'r IBCT yn Llundain y flwyddyn nesaf.



## Gwaith gosod camerâu cyflymder cyfartaledd bron â gorffen



Mae'r gwaith o osod camerâu cyflymder cyfartaledd ar yr A4054 Ffordd Caerdydd Fiddler's Elbow a Phentrebach i fod i ddod i ben ar ddiwedd Mawrth 2022.

Cytunwyd i osod y camerâu gan breswylwyr yn dilyn ymgynghoriad dwy ran yn 2021 yn dilyn archwiliad gorgyrru yn yr ardal a nododd bod 'gorgyrru parhaol a rheolaidd' ar y ffordd.

Dwedodd y Cyng. Michelle Jones, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth: *"Mae'n dda gweld y project yma yn dod i ben. Mae'n esiampl wych o bryder preswylwyr yn derbyn ymateb, a hoffwn ddiolch i'r Cynghorwyr a'r swyddogion sydd wedi bod yn rhan o'r broses am eu cyfraniad yn sicrhau bod y gwaith yn dwyn ffrwyth."*

Mae'r project wedi bod yn bosib oherwydd Cronfa Gyfalaf Diogelwch y Ffordd Llywodraeth Cymru.

# Lleihau carbon: Sut gallwch chi helpu!

Mae newid hinsawdd yn effeithio ar ein bywydau bob dydd yn barod ac mae angen gweithredu ar frys. Fel Cyngor rydym yn anelu gwneud popeth yn ein gallu i leihau carbon, ond i wneud hyn i'r safonau uchaf mae llawer ffordd y gallwch chi helpu.

Trafnidiaeth

- Cerddwch, neu ewch are ich beic ble gallwch.
- Ystyriwch newid i ddefnyddio cerbyd trydan neu hybrid gan y gall hyn arbed 2 dunnell o garbon y flwyddyn. Os na allwch fforddio hyn, dewiswch betrol neu ddisel mwy effeithlon, gall hyn arbed 0.9 tunnell o garbon y flwyddyn.
- Ystyriwch sut mae eich arferion teithio wedi newid yn ystod y cyfnod clo, ceisiwch barhau gyda'r newidiadau hyn.
- Bwytwch fwyd sydd wedi ei gynhyrchu yn lleol er mwyn lleihau'r allyriadau carbon a gynhyrchir wrth brosesu storio a chludo bwyd.

Bwyd a diod

- Peidiwch roi bwyd poeth yn yr oergell neu'r rhewgell. Gadewch iddynt oeri fel bod llai o ynni yn angenrheidiol i'w cadw yn oer. Mae oergelloedd yn un o'r defnyddwyr ynni cartref mwyaf, felly mae bod yn fwy effeithlon o fudd.
- Gwagiwch eich oergell yn fwy aml. Gallwch leihau'r defnydd o ynni trwy gael gwared â bwyd na fydd yn cael ei fwyta. Pan fydd bwyd yn yr oergell mae'n cymryd lle ac ynni. Gwagiwch eich oergell yn wythnosol ond peidiwch â'i adael yn rhy wag, neu bydd e ddim yn cadw at dymheredd oer.
- Y dull mwyaf caredig i'r amgylchedd o goginio yw defnyddio'r ficrodon neu'r cylchoedd ar y ffwrn.
- Ceisiwch dyfu eich llysiau, perlysiau a ffrwythau eich hun.
- Ceisiwch fwyta llai o gig, neu fynd yn llysieuwr neu'n figan.

**Dŵr**

- Ystyriwch baneli solar PV I gynhesu dŵr poeth gartref.
- Defnyddiwch botel y gellir ei defnyddio eto ac eto er mwyn lleihau eich ôl troed carbon a dŵr, mae cynhyrchu plastig yn golygu llawer o allyriadau carbon.

**Gwastraff**

- Rhowch unrhyw eitemau nad ydych eisiau mwyach i rywun sydd ei hangen, neu i sefydliad. Gall yr eitemau yma gael eu hailddefnyddio neu ailddosbarthu.
- Lleihau, ailddefnyddiwch ac ailgylchwch gymaint o wastraff â phosib. Gall hyn gynnwys dillad. Trwy leihau'r gwastraff rydych yn cynhyrchu gall yr allyriadau ostwng gymaint â 0.25 tunnell y flwyddyn.
- Ystyriwch gompostio bwyd heb ei goginio yn eich gardd, gallwch wneud hyn gyda llysiau a ffrwythau. Rhaid defnyddio biniau gwastraff bwyd ar gyfer bwyd sydd wedi ei goginio.

**Tai a'r amgylchedd**

- Gwiriwch insiwleiddio yn y loft ar ddrysau a ffenestri i leihau colli gwres. Os ydych yn rhentu gwiriwch fod y landlord yn ymwybodol o gadw'r adeilad yn ynni effeithiol.
- Newidiwch i dariff ynni gwyrdd. Mae hyn yn golygu newid i ddarparwr sydd yn defnyddio ynni adnewyddadwy fel gwynt a solar. Gall hyn leihau allyriadau gymaint â 79% gan arbed 1.25 tunnell o garbon y flwyddyn.
- Ystyriwch faint o ynni rydych yn ei ddefnyddio. Allwch chi ddefnyddio llai o rywbeth neu ddiffodd peiriant. Gall droi'r gwres o un radd Celsius arbed 3% ar eich bil ynni.
- Gwnewch fwy o ddefnydd o'r ardd trwy dyfu ffrwythau neu lysiau yn hytrach na glaswellt ffug, concrid neu lawr pren.

**Ynni**

- Gall mesurydd deallus eich helpu i ddeall a gwella eich defnydd chostau ynni.
- Wrth sychu dillad defnyddioch lein yn hytrach na pheiriant sychu dillad.

**Isadeiledd gwyrdd**

- Gwnewch eich gardd yn fwy adnewyddadwy trwy blannu coed a gwrychoedd.
- Ymunwch â grŵp gwirfoddoli Caru Lle Rwy'n Byw er mwyn helpu yn eich cymuned.

**Beth rydym ni fel Cyngor yn ei wneud:**

- Gosod mesurau Ynni Effeithlon mewn 32 o adeiladau'r Cyngor trwy fframwaith REFIT Llywodraeth Cymru.
- Mae nifer o gerbydau trydan yn cael ei defnyddio. Ein nod yw cael bob cerbyd yn rhedeg ar drydan erbyn 2030.
- Mae ein Tîm Cefn Gwlad wedi ymrwymo i blannu dros 1000 o goed ar diroedd agored ar hyd a lled y Fwrdeistref Sirol. Mae llawer o natur fel planhigion, coed a gwrychoedd yn amsugno carbon deuocsid yn ystod ffotosynthesis, felly mae cadwraeth tir yn hanfodol yn y broses o leihau carbon.

## Timau'r Cyngor yn clirio dros 2,500 bag o sbwriel o'r priffyrdd

Mae ein timau Glanhau Strydoedd wedi bod yn gweithio yn galed i glirio rhannau o'r A4060 ac A470 ym Merthyr Tudful. Mae'r gwaith, sy'n para mis o amser pob blwyddyn yn clirio'r gwastraff a deflir gan yrwyr.

Wrth fynd i'r wasg, gyda rhan arall yn dal i'w gwblhau, roedd cyfanswm o **1,200 bag i'w ailgylchu a 1,323 bag o wastraff.**

Dwedodd y Cynghorydd Michelle Jones, Aelod y Cabinet dros Wasanaethau'r Gymdogaeth, Cynllunio a Chefn Gwlad: "Mae gwaith ein timau Glanhau Strydoedd yn hanfodol i gadw'r ffyrdd yn glir a diogel ar gyfer pawb sy'n eu defnyddio.

*"Yn anffodus, mae gyrwyr anghyfrifol sy'n taflu sbwriel yn ddrud iawn i drethdalwyr gan fod gorfod cau lonydd yn ddrud iawn ond yn angenrheidiol er diogelwch y gweithwyr.*

*"Hoffwn ddiolch i'r holl dîm am eu gwaith called."*

# Becws yn ailagor fel gwesty

Bydd hen fecws enwog ym Merthyr Tudful yn ailagor fel gwesty moethus a bistro.

Bydd hen adeilad Howfield & Son ar y Stryd Fawr yn gweld trawsnewidiad gwerth £1.1m yn cynnwys bistro/bar ar y llawr gwaelod a gwesty bychan a fflatiau 'o safon uchel' ar y lloriau eraill.

Mae'r Cyngor wedi helpu'r datblygwr RWP Properties I dderbyn grantiau cyllido o £462,000 a £308,000 gan fenter Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru.

Mae'r project yn rhan o agenda Cynllun 15-mlynedd Ganol Tref Merthyr Tudful, sy'n plethu yn agos gydag agenda Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru. Bydd y cynllun yn taclo adeiladau gwag a sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio eto.



Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Adfywio, Trawsnewid a Masnacheiddio'r Cyng. Geraint Thomas: *"Rydym wrth ein bodd yn gweld y dadeni yma ym Merthyr Tudful gyda'r project cyffrous yma.*

*"Bydd yn dod a bywyd newydd i ganol y dref, yn creu llety moethus sydd ond fel arfer ar gael mewn dinas.*

*"Bydd hyn yn cyfoethogi a chefnogi'r sector dwristaidd ar draws y fwrdeistref sirol, yn ogystal â chynnig preswylfa a bwyty o safon uchel a fydd yn gwella'r economi gyda'r nos."*






## Y Cyngor yn prynu Canolfan Siopa y Santes Tudful



Mae canolfan siopa dan do Merthyr Tudful wedi cael ei brynu gan y Cyngor Bwrdeistref Sirol gyda'r bwriad iddo chwarae rhan allweddol yng nghynlluniau 15- mlynedd ganol y dref.

Cafodd y Ganolfan i gerddwyr sy'n rhannol dan do ei hadeiladu yn 1970 ac yn 1993 fe'i hadnewyddwyd ac mae'n cynnwys dros 50 o siopau gan gynnwys manwerthwyr cenedlaethol a busnesau annibynnol. Mae hefyd dros 30 stondin yn y farchnad dan do ar y llawr cyntaf.

Perchnogion Canolfan siopa Santes Tudful oedd y cwmni buddsoddi eiddo Almaeneg Patrizia, ond bellach y Cyngor fydd cyflogwyr y tri aelod staff rheoli.

"Rydym yn gyffrous iawn o fod wedi prynu Canolfan Siopa'r Santes Tudful", meddai'r Cyng Geraint Thomas yr Aelod Cabinet dros Adfywio, Trawsnewid a Masnacheiddio.

*"Dyma galon canol y dref, rhwng yr hen ar orsaf fysiau newydd sydd hefyd yn eiddo i'r Cyngort. Mae cael yr holl safle yn golygu bod potensial sylweddol ar gyfer ail-ddatblygu ac mae'n ganolog i holl gynlluniau adfywio canol y dref."*

Mae'r Cynllun yn rhagweld y bydd cartrefi, swyddfeydd, manwerthu, sgwariau , ardaloedd natur ac ardal glan yr afon fywiog erbyn 2035. Y bwriad yw creu 'strydoedd byw, sgwariau a llwybrau sy'n cynnig croeso, sy'n ddiogel ac yn ysbrydoli'.

Mae'r cynllun yn nodi'r angen i adfywio canol y dref ac yn cyfeirio at gyfleoedd i amrywio'r defnydd manwerthu a hamdden ar y Stryd Fawr a Chanolfan Siopa'r Santes Tudful.

*"Mae bod yn Berchennog ar y ganolfan siopa yn ehangu ar y potensial ar gyfer gwella Merthyr Tudful a gwella gwneuthuriad dinesig canol y dref ar draws sawl sector"*, ychwanegodd y Cllr Thomas.

*"Yn y tymor agos byddwn yn parhau i weithio gyda'r tenantiaid presennol tra hefyd yn gweithio gyda'n partneriaid a'r gymuned i ddatblygu cynlluniau adfywio ar gyfer y dyfodol."*